# ReadSpeaker yn Ychwanegu Llais Newydd yn Gymraeg; Opsiynau Testun-i-Leferydd ar gyfer Deunyddiau Dysgu, Gwefannau, ac Unrhyw Gynnwys Dysgu

*Mae'r Llais Newydd Cymraeg gan ReadSpeaker yn rhoi dewisiadau hygyrchedd ac UDL (Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu) yn Gymraeg i ddysgwyr i'w helpu i ymgysylltu'n ddyfnach â deunyddiau dysgu yn yr ysgol, yn y cartref, wrth hyfforddi, neu yn y coleg neu'r brifysgol*

**CAERDYDD, Cymru - 7 Hydref, 2022** – Mae ReadSpeaker wedi rhyddhau llais testun-i-leferydd newydd Cymraeg i'w ddefnyddio mewn  ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, colegau, prifysgolion ac yn y gweithle yng Nghymru. Drwy glicio ar fotwm, gall dysgwyr alluogi'r erfyn testun-i-leferydd (TTS) gan ReadSpeaker a fydd yn darllen gwefannau ysgol, cynnwys cyrsiau, deunyddiau hyfforddi ac asesiadau mewn llais Cymraeg sydd â'r un donyddiaeth a ffurfdro naturiol â siaradwr brodorol. Nod y datblygiad hwn yw cefnogi gofynion hygyrchedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn rhoi cydraddoldeb cyfartal i'r Gymraeg a Saesneg a bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu yn ysgolion y genedl.

Yn ogystal â bod yn fuddiol i fyfyrwyr â gwahaniaethau iaith, gall unrhyw fyfyriwr ddefnyddio offer llais ReadSpeaker i'w helpu i ddeall ac ymgysylltu'n well â'r hyn mae'n ei ddarllen. Gellir darllen tudalennau gwe, dogfennau PDF, aseiniadau, arholiadau, llawlyfrau hyfforddi, deunyddiau dysgu a hyd yn oed tudalennau gwerslyfrau yn Gymraeg neu Saesneg, a gall y myfyriwr gyflymu neu arafu'r broses fel y bo angen. Gallant hefyd ddewis offer eraill fel amlygu testun, masg sgrin a riwler darllen i wella'r ffocws, neu ddewis amrywiadau o ran ffont, maint, a lliw. Mae'r opsiynau hyn nid yn unig yn cefnogi myfyrwyr AAAA (anghenion addysgol arbennig ac anabledd) ond hefyd dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol wrth ddysgu'r iaith, neu'r rhai y mae'n well ganddynt ymhél â chynnwys mewn ffordd wahanol. Mae ReadSpeaker yn cydymffurfio â'r deddfau preifatrwydd lleol ynghyd â rheolau'r Cydgyngor Cymwysterau o ran addasiadau rhesymol yn ystod arholiadau i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu gweithio ar sail cyfartal ac yn annibynnol yn yr ystafell ddosbarth, yn y cartref, ac mewn arholiadau bob amser.

"Mae'n dda gennym gyflwyno 'Anwen', sef opsiwn llais Cymraeg ar gyfer ein hoffer testun-i-leferydd ReadSpeaker yng Nghymru, sy'n cefnogi'r ymdrech genedlaethol i annog rhugldder yn y Gymraeg," meddai Roy Lindermann, Prif Swyddog Marchnata ReadSpeaker. "Mae datblygu llais Anwen yn bwysig am fod hyn yn golygu bod gan ddysgwyr gefnogaeth iaith ychwanegol yn yr ysgol neu wrth ddysgu gartref. Mae ymchwil yn dangos bod myfyrwyr sy'n ymhél ag iaith mewn amryfal ffyrdd yn dod yn rhugl yn gyflymach ac yn fwy llwyddiannus."

Mae rhoi dewisiadau i ddysgwyr o ran sut maent yn rhyngweithio â gwersi, deunyddiau astudio a gwaith cwrs arall yn ffordd o'u helpu i ymgysylltu. Dyna pam mae ReadSpeaker yn gam yn uwch na'r offer galluogi testun-i-leferydd am ddim. Mae offer ReadSpeaker yn cynnig llawer mwy na throi geiriau'n sain yn unig. Mae ReadSpeaker yn galluogi myfyrwyr i wrando ar ddeunyddiau ysgrifenedig wrth iddynt ddarllen testun wedi'i amlygu, gan ddefnyddio'u llais dewisol. Gallant alluogi'r sain yn unrhyw ran o'r deunyddiau i wneud nodiadau, neu i lanlwytho dogfennau i'w darllen nôl, i ddefnyddio arddweud a gwrando wrth iddynt deipio, i lawrlwytho ffeiliau sain i wrando arnynt ar ffôn, a mwy.

Mae ReadSpeaker yn gymorth pwysig sy'n helpu sefydliadau i symud at Ddylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu (UDL) a gellir ei brynu gan unigolyn neu ar ffurf trwydded safle, gan roi mynediad i bob myfyriwr i'r rhith amgylchedd dysgu (VLE) drwy erfyn integredig. Does dim angen lawrlwytho neu adael yr amgylchedd dysgu er mwyn i bob dysgwr gael cyfle i ddefnyddio sain yn eu dysgu.

**Mwy o wybodaeth**

- Galwch heibio i ReadSpeaker yn Stondin 54 yn y Sioe Addysg Genedlaethol ar 7 Hydref yn Neuadd y Ddinas Caerdydd a gweld ReadSpeaker ar waith.
- Dysgwch fwy am Addysgu'r Gymraeg yma.

**Ynglŷn â ReadSpeaker**

Ers dros 20 mlynedd, mae ReadSpeaker wedi rhoi llais dynol synthetig i fwy na 10,000 o gymwysiadau addysg a diwydiant mewn 70 gwlad. Mae ReadSpeaker yn creu lleisiau digidol pwrpasol ac yn cynnig mwy na 200 o leisiau mynegiannol parod mewn dros 50 o ieithoedd i wella'r Profiad Defnyddiwr drwy ryngweithiadau llais cymelliadol. Mewn colegau a phrifysgolion, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mewn busnesau ledled y byd, mae ReadSpeaker yn rhoi llais i wefannau a chynnwys dysgu. Dysgwch fwy yn ReadSpeaker.com neu ar LinkedIn a Twitter (@ReadSpeaker).

###

Cyswllt Cyfryngau:
Jennifer Harrison ar ran ReadSpeaker
+1 916.716.0636
jennifer@pandopublicrelations.com